# Datganiad Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl Bro Morgannwg

# Ebrill 2023

## Ein Hymrwymiad i'r Egwyddorion Caethwasiaeth Fodern

Mae Cyngor Bro Morgannwg wedi ymrwymo i egwyddorion Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac i ddileu caethwasiaeth fodern a masnachu pobl.

Fel cyflogwr cyfle cyfartal, rydyn ni wedi ymrwymo i greu a sicrhau amgylchedd gwaith anwahaniaethol a pharchus i'n staff. Rydyn ni am i'n holl staff deimlo'n hyderus y gallan nhw ddatgelu drygioni heb unrhyw risg iddyn nhw eu hunain.

Nod ein prosesau recriwtio a rheoli pobl yw sicrhau bod gan bob darpar weithiwr hawl cyfreithiol i weithio yn y DU a diogelu gweithwyr rhag unrhyw gamdriniaeth neu orfodaeth.

Nid ydyn ni’n dechrau busnes gydag unrhyw sefydliad, yn y DU neu dramor, sy'n cefnogi’n fwriadol gaethwasiaeth, caethwasanaeth a llafur gorfodol neu y ceir gwybod ei fod yn ymwneud â’r rheiny.

Rydyn ni wedi ymrwymo’n barhaus i wneud busnes mewn ffordd gyfrifol, sy'n cynnwys ymrwymiad i wneud popeth y gallwn yn rhesymol i atal pob math o gaethwasiaeth fodern mewn unrhyw ran o'n busnes ein hunain a'n cadwyn gyflenwi.

Rydyn ni’n disgwyl i'n cwsmeriaid a'n cyflenwyr rannu a chynnal y gwerthoedd a'r egwyddorion moesegol hyn.

## Pam mae hyn yn bwysig?

Mae'r Cyngor yn cydnabod bod dioddefwyr caethwasiaeth a masnachu pobl yn cael eu trin fel nwyddau a'u hecsbloetio er budd troseddol.

Bwriad y Cyngor yw mynd i'r afael â'r drosedd hon. Mae'r Cyngor yn aelod o'r Grŵp Diogelu Lleol a bydd yn gweithio gyda Heddlu De Cymru ac asiantaethau gorfodi'r gyfraith eraill i helpu i darfu ar y weithred anghyfreithlon hon a dod â chyflawnwyr troseddau o'r fath ledled y Fro gerbron llys.

Felly, mae'r Datganiad hwn yn sail i bolisïau a gweithdrefnau presennol ac yn y dyfodol i helpu i fynd i'r afael â'r drosedd hon.

## Ein Cadwyn Gyflenwi

Byddwn ni'n gwneud ein gorau i:

- nodi ac asesu meysydd risg posibl;
- lliniaru'r risg o achosion o gaethwasiaeth a masnachu pobl;
- monitro meysydd risg posibl; ac
- amddiffyn chwythwyr chwiban.

Bydd y gofynion sy'n ymwneud â Chaethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl yn rhan annatod o ddogfennaeth Gaffael.

Rydyn ni'n bwriadu sefydlu system gadarn o reoli contractau sy'n cyflawni ein gofynion yn y modd mwyaf effeithiol. Bydd yn cynnwys nodi a rheoli risgiau sy'n ymwneud â chaethwasiaeth fodern a masnachu pobl a bydd yn cynnwys:

- gwella cyfathrebu â chyflenwyr;

- gwella perthnasau â chyflenwyr presennol;

- sefydlu strategaethau effeithiol ar gyfer rheoli perthnasau â chyflenwyr; ac

- adolygu cydymffurfiaeth cyflenwyr â'n moeseg, ein polisïau a'n gweithdrefnau wrth gynnal archwiliadau.

Ein nod yw darparu lefel o hyfforddiant sy'n cefnogi ein gallu i reoli contractau'n effeithiol.

## Perchnogaeth

Ein Tîm Adnoddau Dynol a Datblygu Sefydliadol, sy'n adrodd yn uniongyrchol i'n Cyfarwyddiaeth Adnoddau, sy'n gyfrifol am ein rhaglen a'n polisi caethwasiaeth fodern.

Mae ein Tîm Adnoddau Dynol, ar y cyd â'n tîm Cyllid a chaffael, yn gweithio mewn partneriaeth i adolygu'r holl bolisïau a gweithdrefnau mewn modd amserol.

Mae modd gweld ein strwythur sefydliadol mewnol drwy glicio yma.

## Asesu a Rheoli Risg

Bydd y gweithgareddau canlynol yn parhau i gael eu cynnal i sicrhau bod y Cyngor yn cydymffurfio â Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015:

- Sesiynau Sefydlu a Hyfforddiant i Gynghorwyr - yn cynnwys diogelu, caethwasiaeth fodern a masnachu pobl.
- Hyfforddiant i Weithwyr – mae gan y Cyngor hyfforddiant gorfodol i'r holl weithwyr ar gaethwasiaeth fodern sy'n eu galluogi i nodi ac adrodd pryderon perthnasol. Yn ogystal, darperir hyfforddiant penodol i'r gweithwyr hynny sydd â swyddogaethau caffael a rheoli contractau i ystyried mesurau priodol mewn prosiectau. Bydd hyfforddiant gloywi yn cael ei gynnal o leiaf bob 4 blynedd.
- Mae'r Cyngor yn gwbl ymwybodol o'i ddynodiad fel Ymatebydd Cyntaf dan y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol a'i gyfrifoldeb i nodi dioddefwyr posibl ac

atgyfeirio achosion at Awdurdod Cymwys Canolfan Masnachu Pobl y DU y Mecanwaith Atgyfeirio Cenedlaethol.

- Cyflenwyr, Contractwyr a Darparwyr Gwasanaethau - wrth gaffael nwyddau neu wasanaethau, bydd darpar gyflenwyr yn cael eu holi am gydymffurfio ag adran 54 Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015, a bydd gofyn iddyn nhw ddangos diwydrwydd dyladwy a thrylwyredd deallusol i atal caethwasiaeth yn eu cadwyni cyflenwi eu hunain.
- Prosesau recriwtio – mae gennym brosesau recriwtio llym ar waith, gan sicrhau bod gan ein holl weithwyr yr hawliau priodol i weithio. Mae hyn yn cael ei reoli gan ein Tîm Cylch Bywyd mewnol, sy'n rhan o'r Adran Adnoddau Dynol. Rydyn ni'n defnyddio asiantaethau recriwtio cymeradwy i'n cefnogi i ddod o hyd i weithwyr parhaol a chyfnod penodol. Er y caniateir i'r asiantaethau hyn ddod o hyd i ymgeiswyr posibl o fewn eu cadwyni cyflenwi eu hunain, cynhelir gwiriadau perthnasol (gan gynnwys gwiriadau hawl i weithio, Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) a Safon Ddiogelwch Sylfaenol ar gyfer Personél), lle bo hynny'n briodol.
- Yn 2023, byddwn ni'n gweithio i fod yn gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol sydd wedi'i achredu'n ffurfiol, fel y nodir gan y Sefydliad Cyflog Byw. Mae hyn yn golygu bod ein gweithwyr uniongyrchol yn cael eu talu'r Cyflog Byw Gwirioneddol a'n bod yn ei gwneud yn ofynnol i'n holl gontractwyr dalu'r Cyflog Byw Gwirioneddol i'w pobl nhw hefyd. O ganlyniad i hyn, rydyn ni'n credu bod y risg o ran Cyngor y Fro yn cyflogi llafur gorfodol neu wedi'i fasnachu yn isel.

Mae'r datganiad Caethwasiaeth Fodern hwn yn cwmpasu gofynion y rhwymedigaethau cyflogaeth foesegol fel y nodir gyda'r Cod Ymarfer. Bydd y polisi'n cael ei gyfathrebu ledled y Cyngor drwy e-ddysgu a sesiynau hyfforddi ar y cyd i'r holl weithwyr.

Bydd yr Uwch Dîm Arwain yn monitro ei effeithiolrwydd, yn ei adolygu, ac yn adrodd unrhyw newidiadau sylweddol i'r polisi i'w benderfynu gan y Cabinet.

Yn ogystal, bydd y Cyngor yn penodi aelod o'r Uwch Dîm Arwain i ymgymryd â rôl a chyfrifoldebau Hyrwyddwr Gwrth-Gaethwasiaeth a Chyflogaeth Foesegol i gefnogi agwedd y Cyngor tuag at arferion cyflogaeth anfoesegol, caethwasiaeth fodern, masnachu pobl ac achosion eraill o gam-drin hawliau dynol.

## Ein Polisïau

Atgyfnerthir ein hymrwymiad i gynnal busnes yn foesegol ac yn gyfrifol drwy gydol gwahanol bolisïau cwmni, gan gynnwys:

- **Ein Cod Ymddygiad** sy'n gosod safon yr ymddygiad sy'n ddisgwyliedig gan bawb sy'n cael eu cyflogi yn y Cyngor a'r rheiny sy'n gwneud busnes ar ein rhan, er mwyn sicrhau ein bod i gyd yn gweithio mewn ffordd agored a gonest.

Bydd ein Cod Ymddygiad yn cael ei adolygu yn 2023, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau'n flaengar ac yn parhau i gydymffurfio.

**Polisi Codi Llais (Chwythu'r Chwiban):** Gall aelodau o staff, aelodau ein cadwyn gyflenwi neu'r cyhoedd fynegi pryderon am ddrygioni (gan gynnwys achosion o dorri hawliau dynol) yng Nghyngor Bro Morgannwg.

Mae ein Polisi a'n gweithdrefnau wedi'u hadolygu yn 2021 ac yn 2022 i sicrhau ein bod yn cynnig y sianeli mwyaf priodol i wneud hyn - gan gynnwys gwasanaeth adrodd 24/7 cyfrinachol o'r enw 'Codi Llais'. Gellir gwneud adroddiadau i'r gwasanaeth 'Codi Llais' yn ddienw, os yw'r sawl sy'n datgelu'n teimlo'n fwy cyfforddus yn adrodd yn y modd hwn.

**Polisi Caffael a Chontractau**: Diweddarwyd ein Polisi a Strategaeth Gaffael sy'n cyfeirio at gaethwasiaeth fodern ddiwethaf ym mis Chwefror 2023.

Yn ogystal, mae'r canlynol ar gael i'n holl staff trwy Staffnet a Staffnet Plus:

- Polisi bwlio ac aflonyddu
- Polisi amrywiaeth a chynhwysiant
- Polisi recriwtio a dethol
- Polisi Recriwtio Diogelach

Gwneir y datganiad gwirfoddol hwn gan gyfeirio at adran 54(1) Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015 ac mae'n gweithredu fel datganiad Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl Cyngor Bro Morgannwg ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaw i ben ar 31 Mawrth 2024.

Cymeradwywyd y datganiad hwn gan Gabinet Cyngor Bro Morgannwg ar 27 Chwefror 2023.

**Bro Morgannwg - Ymgynghoriad â chyflenwyr ar y Polisi a Strategaeth Gaffael**

Mae'r Cyngor yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o'i Bolisi a Strategaeth gyfredol a gyhoeddwyd yn 2018.

**Polisi a Strategaeth 2018**

Mae ar gael ar wefan y Cyngor ar dudalen y Cyngor neu'n uniongyrchol drwy'r ddolen isod:

https://www.valeofglamorgan.gov.uk/Documents/Our%20Council/Council/Finance/Procurement/Procurement-Policy-and-Strategy.pdf

Hoffai'r Cyngor ddeall lefel amlygrwydd ei Bolisi a Strategaeth gyfredol a sut y gellir hyrwyddo hyn yn ehangach yn y dyfodol

| | | |
|---|---|---|
| C1 | A ydych chi'n ymwybodol o Bolisi a Strategaeth Gaffael gyfredol y Cyngor? | √ / X |
| C2 | A allwn ni wneud mwy i'w hyrwyddo? Rhowch awgrymiadau o ran sut. | |

**Ymgynghoriad ar y Polisi a Strategaeth**

Mae'r Cyngor wedi llunio drafft cyntaf ei Bolisi a Strategaeth ddiwygiedig a gyflwynir i'r Cabinet yn gynnar yn y flwyddyn newydd.

Dolen i'r Polisi a Strategaeth

Ddrafft Dolen i'r Crynodeb

Gweithredol drafft

Mae'r ddogfen yn cael ei llywio gan nodau lles ac uchelgeisiau caffael Llywodraeth Cymru ynghyd â rhai'r Cyngor. Ei nod yw sicrhau Gwerth Cymdeithasol i'n cymunedau a sicrhau bod ein partneriaid yn rhannu ein gweledigaeth ar gyfer cydraddoldeb, gan dyfu'r economi leol ac amddiffyn ein hamgylchedd.

Gwerth Cymdeithasol (Adran 4 y Polisi Drafft)

Mae Gwerth Cymdeithasol yn golygu darparu buddion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol ehangach ar ben cyflawni gofynion contract craidd. Mae sicrhau gwerth cymdeithasol ychwanegol drwy gaffael yn arwain at fwy o werth am arian a gwell canlyniadau i drigolion tra'n cyflawni arbedion hirdymor.

Cyfeirir at Werth Cymdeithasol yn gyffredin hefyd fel Buddion Cymunedol. Mae'r Cyngor yn cynnig mabwysiadu Fframwaith Gwerth Cymdeithasol Llywodraeth Cymru ond mae'n ymgymryd â darn o waith ar wahân i'w deilwra'n benodol at amcanion y Cyngor ac yn bwysig i'w symleiddio.

| | | |
|---|---|---|
| C3 | A ydych chi'n gyfarwydd â'r cysyniad o Werth Cymdeithasol? | √ / X |
| C4 | Ble allech chi sicrhau Gwerth Cymdeithasol i'r Cyngor drwy ddarparu contractau a'r gwaith cyffredinol o weithredu eich cwmni? Cyfeiriwch at y tabl themâu, canlyniadau a mesurau (ThCM) ar ddiwedd y Crynodeb Gweithredol. | |

Mae pedair adran nesaf y Polisi a Strategaeth yn trafod Caffael Moesegol, Economi a Chyflogaeth a Lleihau Carbon.

Caffael Moesegol

Mae'r Cyngor yn ceisio sicrhau arferion moesegol drwy gydol ei gadwyn gyflenwi o ran cyflogaeth, cyflog, cydraddoldeb, taliad prydlon, caethwasiaeth fodern, atal llygredd a chyflenwadau bwyd cynaliadwy.

| | | |
|---|---|---|
| C5 | A ydych chi'n cynnal yr un gwerthoedd moesegol â'r Cyngor, a allai fynd ymhellach? | √ / X |
| C6 | Sylwadau | |

Economi a Chyflogaeth

Nod y Strategaeth yw cryfhau'r economi leol ac mae cyflogaeth yn gwneud hyn drwy annog hyfforddiant a datblygiad a sicrhau bod y Cyngor yn cefnogi busnesau lleol i gael mynediad at gontractau'r Cyngor ac i gael mynediad at gyllid.

| | | |
|---|---|---|
| C7 | A yw'r seilwaith cywir yn bodoli i hyfforddi a datblygu eich gweithlu, yn enwedig yn y grŵp oedran dan 24 oed? | √ / X |
| C8 | Sut gall y Cyngor gefnogi busnesau bach a chanolig yn well? | |

Lleihau Carbon

Mae gan y Cyngor ymrwymiad i fod yn sero net erbyn 2030 ac mae'n ceisio cefnogi hyn drwy nifer o fesurau caffael o ran allyriadau, defnydd o ynni, teithio, yr economi gylchol, deunyddiau a brynir a dŵr.

| | | |
|---|---|---|
| C9 | A yw uchelgeisiau carbon y Cyngor yn ddigon uchelgeisiol? | √ / X |
| C10 | Sylwadau | |

Yn olaf, unrhyw sylwadau eraill

| | |
|---|---|
| C11 | Unrhyw sylwadau eraill |